Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 19 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2024/25**<br><br>**Adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2024/25.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Ionawr 2025 ac yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y costau diswyddo perthnasol (gan gynnwys y gost o ryddhau pensiwn), rhagwelir y bydd y gorwariant hyd at £919,477 yn seiliedig ar y costau diswyddiadau uchaf. Mae'r ffigwr yma yn dilyn gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant hanesyddol o £221,310.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**
**Ionawr 2025: gorwariant £1,104,407**
Sefydlwyd cyllideb GwE ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn seiliedig ar nifer y staff yn Chwefror 2024. Mae arbediad wedi ei wireddu wedi i rai o aelodau staff GwE adael eu swyddi, secondiadau staff, yn ogystal â derbyniad grant. Mae'r adroddiad yma hefyd wedi ymgorffori penderfyniad y Cydbwyllgor ar 1 Awst 2024 i ailstrwythuro'r Uwch Dîm Reoli.

Yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, mae'r adolygiad ariannol yn cynnwys amcangyfrif o uchafswm cost diswyddo o oddeutu £1.7m i staff na fydd yn trosglwyddo i'r awdurdodau. Disgwylir cyfraniad Llywodraeth Cymru o £738k (£123k fesul awdurdod) tuag at y gost.

2.2 **Rhent:**
**Ionawr 2025: gorwariant £89,534**
Adroddwyd yn flaenorol y disgwyliad o orwariant ar y pennawd yma eleni o ganlyniad i rentu gofod mwy o faint yn swyddfa Caernarfon. Yn ychwanegol i hyn mae angen ystyried cost terfynu prydlesi swyddfeydd a bydd hynny yn gwaethygu'r gorwariant eleni.

2.3 **Cludiant:**
**Ionawr 2025: tanwariant (£34,032)**
Yn hanesyddol, mae'r pennawd yma wedi bod yn tanwario, ac yn seiliedig ar dueddiad Ebrill i Ionawr eleni, rydym yn rhagweld sefyllfa o danwariant yn parhau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffyrdd newydd o weithio rhithiol a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £221,310.

3.2 Fel yr eglurwyd yn rhan 1.1 uchod, bwriedir gwneud defnydd llawn o'r gronfa tanwariant er mwyn lleihau'r gorwariant ar gyfer 2024/25 i £919,477.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2024/25 – Adolygiad hyd at ddiwedd Ionawr 2025.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.